

Papur y Bwrdd i'w Nodi



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 11 Ionawr

Yn bresennol:

Shan Morgan
Andrew Goodall
Tracey Burke
Des Clifford
Andrew Slade
Natalie Pearson
Gawain Evans
David Richards
Peter Kennedy
Jeff Godfrey
Gillian Baranski
Jeff Farrar
Gareth Lynn
Ann Keane
Ellen Donovan
Charlotte Cosserat
Helena Bird

Yn mynychu:

Piers Bisson
Simon Brindle
Helen Morris

Ymddiheuriadau:

Dim

1. Croeso

- 1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i'r cyfarfod a chyflwyno Aelod newydd y Bwrdd Cysgodol, Charlotte Cosserat.

2. Y Prif Weinidog newydd a'r Cabinet

- 2.1 Rhoes yr Ysgrifennydd Parhaol adborth o'i dau gyfarfod dwyochrog cyntaf â'r Prif Weinidog newydd, ac fe roes y Cabinet adborth hefyd ar eu cyfarfod cychwynnol.
- 2.2 Rhoes yr Ysgrifennydd Parhaol adborth hefyd o'r ddau gyfarfod Cabinet cyntaf o dan y Prif Weinidog newydd. Byddai cyfarfodydd Cabinet 'Trafod' bob yn ail wythnos bellach, a fydd yn dilyn mwy o fformat cyd-drafod.

- 2.3 Bydd Ysgrifenyddion y Cabinet yn cael eu galw'n Weinidogion ac yn Ddirprwy Weinidogion unwaith eto.
- 2.4 Pwysleisiwyd bod y Prif Weinidog wedi datgan mai cwblhau ac ymestyn Ffyniant i Bawb yw ei fanifesto arweinyddiaeth a bod gwaith wedi cael ei gomisiynu i asesu'r amserlen ar gyfer cyflawni'r holl ymrwymadau yn y manifesto.
- 2.5 Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod wedi gwahodd David Davies, Cynghorydd Arbennig newydd y Prif Weinidog i fynychu'r Grŵp Uwch Arweinwyr.
- 2.6 Rhoes yr Ysgrifennydd Parhaol yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd i'r Bwrdd am drefniadau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 21 Ionawr a byddai angen taro cydbwysedd gofalus rhwng caniatáu i bobl adael a chadw sgiliau hanfodol.

3. Trefniadau Pontio'r Undeb Ewropeaidd (UE)

- 3.1 Ymunodd Piers Bisson a Simon Brindle â'r cyfarfod.
- 3.2 Rhoes yr Ysgrifennydd Parhaol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ei chyfarfod Cydweithwyr Bore Mercher yn Llundain a oedd wedi canolbwyntio ar Brexit. Roedd yn ymddangos bod diffyg mwyafrif ar gyfer unrhyw gytundeb penodol cyfredol ac mae'r adroddiadau yn y cyfryngau yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol i raddau helaeth.
- 3.3 Amlinellodd Piers y sefyllfa bresennol ac esbonio bod yr UE wedi cadarnhau nad yw'r "backstop" i fod yn barhaol, ond bod yr UE yn anfodlon edrych o'r newydd ar y ddeddfwriaeth ar hyn.
- 3.4 Trafodwyd problemau posibl o ran llif nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, ynghyd â hawliau gweithwyr.
- 3.5 Disgwylir i'r Bleidlais Ystyrlon gael ei chynnal yn Senedd y Deyrnas Unedig ddydd Mawrth nesaf a phe bai'r Llywodraeth yn colli'r bleidlais byddai angen iddi ddod yn ôl mewn tri diwrnod gyda chynllun gweithredu diwygiedig.
- 3.6 Nododd Piers fod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Pwyllgor Cabinet newydd a grŵp swyddogion cysylltiedig.

3.7 Amlinellodd Piers a Simon y cynnydd gyda phedair elfen allweddol o waith.

- (1) Prosiectau parodrwydd ledled y DU
- (2) Offerynnau Statudol
- (3) Argyfyngau Sifil
- (4) Gwaith y tu hwnt i gyfranogiad ym mhrosiectau'r DU.

3.8 Cadarnhawyd y câi pob Cabinet eitem sefydlog ar Brexit, bod Gweinidog Brexit newydd wedi cael ei benodi, y byddai Is-bwyllgor y Cabinet ar Brexit o hyd a bod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi sefydlu cyfarfod BrExCo, a fyddai'n cael ei gynnal unwaith y pythefnos.

3.9 Pwysleisiodd Piers fod hwb wedi cael ei roi i waith cyfathrebu yn ddiweddar. Byddai gwefan 'Paratoi Cymru' yn mynd yn fyw cyn hir ac roedd hyn yn anelu at helpu busnesau a'r cyhoedd i baratoi a deall lle bo ganddynt fuddiant o bosibl. Trafodwyd hefyd pa fathau eraill o gyfathrebu y gallai fod eu hangen. Trafodwyd hefyd yr angen i sicrhau bod y Cyrff a Noddir gennym hefyd yn barod.

Trafodwyd sut y mae materion yn cael eu blaenoriaethu.

3.10 Yr wythnos nesaf bydd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit yn gwneud datganiad llafar ar Brexit a bydd dadl gan yr wrthblaid hefyd. Ar 22 Ionawr byddai cyfres o ddatganiadau ar barodrwydd am Brexit Dim Cytundeb yn y Cyfarfod Llawn.

3.11 Cadarnhaodd Tracey Burke fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu sefydlu Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) o ganol Chwefror.

4. Adroddiad Cyllid

4.1 Cyflwynodd Gawain Evans yr Adroddiad Cyllid i'r Bwrdd. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar dabl 4 a Chronfeydd Wrth Gefn Cymru. Nodwyd bod y gronfa wrth gefn yn cynnwys bron y swm y caniateir i Lywodraeth Cymru ei gario drosodd - trafodwyd opsiynau i oresgyn y mater hwn, gan gynnwys cynyddu'r Gronfa wrth gefn ei hun ac ailbroffilio benthycia. Symiau canlyniadol o Drysorlys y DU yn hwyr yn y flwyddyn ariannol oedd y rheswm yn rhannol dros y swm yn y cronfeydd wrth gefn.

4.2 Tanlinellodd Gawain fod cynnydd wedi'i wneud ar danwario eleni, ond y byddai ymgais i wella ymhellach y flwyddyn nesaf. Cytunwyd bod angen

tryloywder a chydweithredu pellach ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwariant yn cael ei broffilio'n gywir drwy gydol y flwyddyn.

5. Canlyniadau'r Arolwg Pobl

- 5.1 Ymunodd Sharon Cross â Natalie Pearson i gyflwyno'r dadansoddiad o Ganlyniadau'r Arolwg Pobl i'r Bwrdd.
- 5.2 Roedd y canlyniadau'n well na'r llynedd ac yn dangos bod Llywodraeth Cymru mewn lle da o'i chymharu â gweddill Whitehall.
- 5.3 Cytunwyd bod arweinyddiaeth, Dysgu a Datblygu a Rheoli newid yn feysydd lle y gallai Llywodraeth Cymru geisio'n benodol gwella sgoriau ymhellach.
- 5.4 Tanlinellodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod hefyd am wella'r sgoriau bwlio ac aflonyddu a'i bod wedi lansio ymgyrch i wella urddas a pharch yn y gweithle i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.
- 5.5 Rhoes pob Cyfarwyddwr Cyffredinol drosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn eu priod grwpiau i wella a deall yn well canlyniadau eu hadrannau. Roedd yn offeryn rheoli defnyddiol ac wedi helpu trafodaethau perfformiad mewn rhai meysydd.
- 5.6 Dywedodd Jeff Farrar y byddai canlyniadau Llywodraeth Cymru'n yn ymddangos yn gadarnhaol iawn pe baent yn cael eu meincnodi yn erbyn gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru.
- 5.7 Tanlinellodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr hoffai wneud mwy i wella amlygrwydd fel y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau'r dyfodol.

6. Archwilio Mewnol a Rheoli Risg yn Llywodraeth Cymru – canfyddiadau allweddol ac atebion

- 6.1 Ymunodd Helen Morris â'r cyfarfod a rhoi trosolwg o'r Adolygiad o Reoli Risg a wnaed gan Archwilio Mewnol ac esboniodd y byddai adroddiad llawn am hyn ar gael cyn hir. Esboniodd nad yw'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg bellach yn diwallu anghenion y sefydliad a hynny oherwydd newidiadau i'r trefniadau llywodraethu yn ystod 2018.
- 6.2 Tanlinellodd Helen y prif faterion a nodwyd yn yr adolygiad gan Archwilio Mewnol a thrafod â'r Bwrdd fod gallu Swyddog Gwella Risg i newid arferion rheoli risg wedi cael ei gyfyngu gan ddiffyg adnodd i gefnogi

gweithgareddau rheoli risg ar lefel gorfforaethol. Y disgwyl oedd y byddai person newydd yn ei swydd cyn hir i helpu i reoli'r gwaith hwn.

- 6.3 Trafododd y Bwrdd yr angen am fframwaith priodol i reoli risg. Cytunwyd bod fframwaith llawn yn un o'r camau cyntaf wrth helpu rheoli risg i ennill ei blwyf yn Llywodraeth Cymru a sicrhau bod cysondeb ar lefel gorfforaethol a lefel Grŵp.
- 6.4 Trafododd y Bwrdd yr angen i'r Adroddiad gael ei drafod yn yr ARaCs Grŵp ac i oblygiadau posibl o ran adnoddau gael eu trafod yn ExCo.
- 6.5 Trafododd y Bwrdd hefyd y Trywydd a gynhwysir yn yr adroddiad a chytuno y dylid gwneud gwaith pellach ar hyn ac y dylai'r gwaith hwn gael ei adlewyrchu yng Nghylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Pobl a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Is-bwyllgor Cyllid.

CAM GWEITHREDU 1 – Helen Morris i ddiweddarau'r Trywydd

CAM GWEITHREDU 2 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiweddarau'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Pobl a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Is-bwyllgor Cyllid.

- 6.6 Roedd y Bwrdd yn teimlo bod angen sefydlu cynllun cyn gynted â phosibl ac fe wnaeth y Bwrdd wahodd Helen i fynychu'r cyfarfod nesaf i gyflwyno cynllun prosiect.

CAM GWEITHREDU 3 – Helen Morris i gyflwyno cynllun prosiect i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

7. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Eitemau'r Is-bwyllgor

- 7.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod yn flaenoriaeth ganddi feithrin perthynas â'r Prif Weinidog a dod i ddeall ymhellach ei flaenoriaethau ar gyfer y llywodraeth.
- 7.2 Trafododd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd â'r Bwrdd y gwaith yr oedd ar fin ei gomisiynu ar fesur perfformiad sefydliadol Llywodraeth Cymru. Câi'r gwaith hwn ei drafod mewn sesiwn o'r Bwrdd yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU 4 – perfformiad sefydliadol i'w roi ar agenda'r Bwrdd yn y dyfodol

- 7.3 Rhoes Ann Keane drosolwg o gyfarfod diwethaf ARaC a dweud ei bod yn falch o weld adroddiad sicrwydd gan Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol a Swyddfa'r Prif Weinidog.
- 7.4 Pwysleisiwyd bod y cytundeb i gynnal archwiliad blynyddol gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gam cadarnhaol.
- 7.5 Rhoes Jeff Farrar drosolwg o'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth – roedd hyn yn cynnwys papur ar gynnig tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil, gwella'r agenda ac amrywiaeth yn swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil ac roedd pedair swydd ar lefel Cyfarwyddwr wedi cael eu cytuno.
- 7.6 Dywedodd David Richards wrth y Bwrdd nad oedd Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaeth wedi cyfarfod ers ei gyfarfod diwethaf. Er hynny byddai cyfarfod Cabinet ynghylch y rhaglen ddeddfwriaethol cyn hir.

8. Unrhyw Fater Arall

- 8.1 Rhoes Andrew Goodall drosolwg i'r Bwrdd am y sefyllfa ddiweddaraf o ran pwysau'r gaeaf i'r GIG.

Camau gweithredu'n codi yng nghyfarfod y Bwrdd, 11 Ionawr 2019.

CAM GWEITHREDU	SWYDDOG ARWEINIOL	Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF
CAM GWEITHREDU 1: Helen Morris i ddiweddarau'r Llwybr	Helen Morris	Wedi'i gwblhau
CAM GWEITHREDU 2: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiweddarau'r cylch gorchwyl ar gyfer Is-bwyllgor Pobl a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Is-bwyllgor Cyllid	Yr Ysgrifenyddiaeth	Wedi'i gwblhau
CAM GWEITHREDU 3: Helen Morris i gyflwyno cynllun prosiect i gyfarfod nesaf y Bwrdd.	Helen Morris	Wedi'i gwblhau
CAM GWEITHREDU 4: Perfformiad sefydliadol i'w roi ar agenda'r Bwrdd yn y dyfodol	Yr Ysgrifenyddiaeth	Wedi'i gwblhau